Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)
**Uned 4 a 5 Canolfan Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr**
**Stryd Dewi**
**Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 3SH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Bwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu (CITB) yn gweithredu fel asiantaeth reoli ar gyfer cyflwyno rhaglenni dysgu a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae’r darparwr yn rheoli cyflwyno fframweithiau hyfforddiant mewn adeiladu, cynllunio a’r amgylchedd adeiledig.

Mae gan y darparwr gontractau gyda’r sefydliadau addysg bellach canlynol a phartneriaid cyflwyno eraill ar gyfer cyflwyno ac asesu rhaglenni hyfforddi, gan gynnwys prentisiaethau sylfaen, prentisiaethau a phrentisiaethau uwch.

- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
- Coleg Caerdydd a’r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Y Cymoedd
- Coleg Ceredigion
- Coleg Sir Gâr
- Hyfforddiant Ceredigion Training
- Coleg Gwent
- Grŵp Llandrillo Menai
- Jones Brothers, Rhuthun, (Peirianneg Sifil) Co Ltd
- Grŵp NPTC
- Coleg Sir Benfro
- Smarter Training Group
- Y Coleg Merthyr Tudful

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill arnynt yn dda. Mae bron yr holl ddysgwyr presennol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gwblhau eu fframweithiau hyfforddi. Mae dysgwyr yn datblygu lefelau uchel o fedrau ymarferol yn y gweithle. O ganlyniad i hyn, mae dysgwyr yn cael ac yn cynnal cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Mae'r dysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan lawn yn eu rhaglenni hyfforddi. Maent yn mwynhau eu hyfforddiant ac yn gweithio'n dda gyda'u cyflogwyr, tiwtoriaid a'u haseswyr.

Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o swyddogion, tiwtoriaid ac aseswyr prentisiaeth ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr, ac maent yn rhoi lefelau buddiol o gymorth personol iddynt. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gan y darparwr i sicrhau bod dysgwyr yn cael gofal, cymorth ac arweiniad da. Ceir trefniadau diogelu manwl.

Mae uwch dîm rheoli'r darparwr wedi bod yn effeithiol iawn o ran pennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflawni eu contract dysgu yn y gwaith. Mae'r darparwr yn rheoli ei gontract dysgu yn y gwaith yn effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi a chymwysterau eraill arnynt yn dda ac yn gwella
- Mae dysgwyr yn datblygu medrau ymarferol a gwybodaeth theori sy'n eu helpu i gael a chynnal cyflogaeth
- Mae trefniadau partneriaeth gyda chyflogwyr yn arbennig o effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd rhagorol i ddysgwyr ddatblygu medrau ymarferol lefel uchel
- Mae uwch dîm rheoli'r darparwr yn effeithiol iawn o ran cynorthwyo partneriaid addysg bellach a phartneriaid cyflwyno i wella ac ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth
- Mae ethos a chyfeiriad strategol allweddol y darparwr yn cynnwys ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr ac ansawdd hyfforddiant adeiladu
- Mae'r darparwr wedi datblygu system o ansawdd uchel i olrhain cynnydd dysgwyr a monitro perfformiad sefydliadau addysg bellach ac isgontractwyr partner cyflwyno
- Mae perthnasoedd gweithio rhagorol gan y darparwr â'i sefydliadau addysg bellach, partneriaid cyflwyno a chyflogwyr sy'n effeithiol iawn o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr

- Mae'r dull partneriaeth effeithiol iawn hwn wedi creu ethos cadarn o gydweithio rhwng penaethiaid adeiladu sefydliadau addysg bellach, wedi lleihau cystadleuaeth rhwng partneriaid ledled Cymru ac wedi annog rhannu arfer orau
- Mae'r darparwr wedi datblygu partneriaethau dylanwadol iawn ar y lefel strategol uchaf sy'n codi proffil y diwydiant ac yn galluogi rheolwyr i roi ystyriaeth dda i flaenoriaethau allweddol wrth gynllunio

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau cwblhau fframweithiau yn yr isgontractwyr sydd â'r perfformiad isaf i lefel y rhai sydd â'r perfformiad gorau

A2 Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn cywiro gwaith ysgrifenedig dysgwyr o ran gwallau sillafu a gramadeg

A3 Gwneud yn siŵr bod gosod targedau a chymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn datblygu dealltwriaeth a gallu disgyblion yn llawn

A4 Gwella hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau arnynt tua'r un fath â'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith. Mae'r data diweddaraf heb ei gyhoeddi yn dangos tuedd barhaus tuag i fyny o ran cyfraddau llwyddo. Mae prentisiaid a phrentisiaid sylfaen yn cyflawni'u fframweithiau ar gyfraddau tebyg. Fodd bynnag, dim ond rhaglenni adeiladu y mae'r darparwr yn eu cyflwyno, ac o gymharu â darparwyr dysgu yn y gwaith eraill yng Nghymru, mae'n hyfforddi'r gyfran fwyaf o ddysgwyr adeiladu ar draws y sector. Felly, mae'r darparwr yn brif gyfrannwr at gyfrifo'r cymaryddion cenedlaethol.

Ar draws rhaglenni prentisiaeth sylfaen a phrentisiaeth, mae nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'u hyfforddiant ac yn cyflawni'u fframwaith cymwysterau llawn mewn modd amserol yn uchel iawn. Mae llawer o ddysgwyr yn ennill cymwysterau ychwanegol defnyddiol wrth weithio tuag at eu fframwaith, fel cymorth cyntaf a thrwyddedau i weithio mewn gweithgareddau risg uchel. Mae'r cymwysterau gwerthfawr hyn yn helpu dysgwyr i gael a chynnal cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig ac yn cael eu hysgogi gan eu hyfforddiant, ac maent yn croesawu'r cymorth a gânt gan eu cyflogwyr a'r darparwr. O ganlyniad, mae cyfraddau cadw dysgwyr yn y diwydiant adeiladu a dilyniant i lefelau hyfforddiant uwch yn uchel. Yn 2014-2015, fe wnaeth 62% o ddysgwyr prentisiaeth sylfaen symud ymlaen at raglenni prentisiaeth. Yn yr un flwyddyn, fe wnaeth 93% o'r holl ddysgwyr a gwblhaodd eu rhaglen hyfforddi aros mewn cyflogaeth neu symud ymlaen i lefelau hyfforddiant uwch.

Mae bron yr holl ddysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau ymarferol a theori. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau. Maent yn gallu cyfleu beth maent wedi'i ddysgu, ac yn defnyddio'r lefel briodol o iaith dechnegol yn hyderus. Maent yn cynhyrchu gwaith ymarferol o ansawdd uchel ar y safle ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fusnes eu cyflogwr. Yn ystod sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, maent yn cynhyrchu gwaith ymarferol o ansawdd da ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda. Mewn gweithgareddau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, maent yn dangos lefelau da o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r ystod eang o offer llaw ac offer pŵer.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod beth yw canlyniadau eu hasesiadau cychwynnol o lythrennedd a rhifedd ac maent yn awyddus i wella'r medrau hyn. Maent yn deall yn glir sut bydd y gwelliant hwn yn eu helpu i symud ymlaen yn eu gyrfa ddewisedig. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso medrau mathemateg yn dda mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gweithle, er enghraifft wrth gyfrifo dimensiynau coed, marcio deunyddiau ac wrth dorri onglau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall cynnwys eu cynlluniau dysgu unigol (CDUau) ac maent yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae dysgwyr yn elwa ar gael adolygiadau cynhwysfawr rheolaidd o'u cynnydd gyda'u haseswyr a'u cyflogwyr.

Mae dysgwyr yn cyflawni’u cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefelau sy’n briodol i’w rhaglen, ac mae ychydig o ddysgwyr yn cwblhau’u cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel uwch na hynny sy’n ofynnol ar gyfer eu fframwaith.

Dangosir tystiolaeth glir o gynnydd dysgwyr yn y rhan fwyaf o bortffolios dysgwyr. Maent yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth tystion a thystiolaeth ffotograffig. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn elwa o gael eu gwaith ysgrifenedig wedi’i farcio’n effeithiol. Yn yr achosion hyn, nid yw dysgwyr yn gallu gwella eu cywirdeb a’u mynegiant ysgrifenedig.

Er bod dysgwyr wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith, nid oes digon o ddysgwyr yn cynnal neu’n datblygu’u medrau Cymraeg.

**Lles: Da**

Mae dysgwyr yn teimlo’n ddiogel yn eu gweithle ac amgylcheddau dysgu. Maent yn gwybod beth yw eu hawliau a’u cyfrifoldebau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o reoliadau a gofynion iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae dysgwyr yn gwybod sut i weithio’n ddiogel ar y safle, sut i roi gwybod am arferion anniogel, damweiniau a phwy i droi atynt os oes angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae dysgwyr yn llawn cymhelliant, yn mwynhau eu dysgu ac yn awyddus i symud ymlaen i’r lefel hyfforddiant nesaf. Mewn sesiynau theori, mae llawer o ddysgwyr yn cynorthwyo’i gilydd yn dda i sicrhau bod pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da. Yn y gweithle, mae dysgwyr yn datblygu medrau cyfathrebu a medrau gweithio mewn tîm da. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i wella eu dysgu eu hunain. Maent yn magu hyder yn y gweithle ac yn datblygu’u gallu i weithio’n annibynnol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dod yn aelodau gwerthfawr o dîm eu cyflogwr yn gyflym.

Mae dysgwyr yn cyfranogi’n llwyddiannus mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol, lle gallant ddangos eu cymhwysedd medrau ymarferol lefel uchel. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol, cenedlaethol a phrosiectau lleol cymunedol. Er enghraifft, mae dysgwyr prentisiaeth yn rhan o brosiectau adeiladu yn Uganda. Maent yn cymryd rhan mewn prosiectau ar hyd a lled Cymru, lle maent wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at eu cymunedau lleol drwy gynorthwyo mewn prosiectau adnewyddu ac adeiladu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r darparwr yn cyflwyno ystod eang o raglenni adeiladu ledled Cymru, ac mae darpariaeth arbenigol ar gael mewn rhannau eraill o’r DU. Mae’r rhaglenni hyn yn adlewyrchu anghenion y diwydiant, y galw rhanbarthol ac arbenigeddau’r is-gontractwr addysg bellach a phartneriaid cyflwyno eraill yn dda.

Mae’r darparwr yn cynnig llwybrau dilyniant clir a chyfleoedd i fynd i’r lefel hyfforddiant nesaf. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i wella eu medrau, lefelau, a rhagolygon cyflogaeth a dyrchafiad ymhellach. Gall dysgwyr symud yn dda

o raglenni lefel 1 cyflwyniadol i raglenni prentisiaeth sylfaen a phrentisiaeth yn eu crefft arbenigol. Mae'r rhaglen prentisiaeth uwch a gyflwynwyd yn ddiweddar yn darparu llwybr dilyniant clir i ddysgwyr sydd eisiau ennill cymhwyster mewn goruchwyliaeth safle.

Mae'r darparwr yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr er mwyn sicrhau bod prentisiaid yn ymarfer ac yn datblygu'u medrau crefft mewn amgylcheddau gwaith heriol a chefnogol. Ym mhob achos bron, mae cyflogwyr yn chwarae rhan weithgar a gwerthfawr yn datblygu medrau ymarferol a gwybodaeth theori eu prentisiaid. Mae'r darparwr yn cefnogi cyflogwyr yn y rôl hon yn effeithiol trwy gyfathrebu da rhwng swyddogion prentisiaeth CITB a chyflogwyr, a thrwy hyfforddiant buddiol, fel sesiynau cofnodi yn y gweithle, sy'n helpu cyflogwyr i gofnodi a dogfennu tystiolaeth ar gyfer portffolios dysgwyr.

Mae'r cynllun rhannu prentisiaeth yn arbennig o effeithiol o ran rhoi cyfleoedd i brentisiaid gymryd lleoliadau gwaith tymor byr gyda chyflogwyr heblaw eu cyflogwr eu hunain. O ganlyniad, mae prentisiaid yn cael cyfleoedd hyfforddi ac asesu i gwmpasu gofynion y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol na fyddent wedi'u cael fel arfer.

Drwy ei rwydwaith o sefydliadau addysg bellach a phartneriaid hyfforddi, mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd cynhwysfawr i ddysgwyr gwblhau'u cymwysterau medrau hanfodol. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach a thiwtoriaid partner hyfforddi yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu'u medrau rhifedd yn gysylltiedig â gwaith drwy eu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio'r 'rheol 3-4-5' i wirio bod corneli yn sgwâr. Fodd bynnag, mae llai o gyfleoedd yn cael eu cynnig i ddysgwyr ddatblygu'u medrau llythrennedd, ac mewn ychydig o achosion, nid yw tiwtoriaid ac aseswyr yn marcio camgymeriadau sillafu, atalnodi neu ramadeg yng ngwaith dysgwyr. Mewn adolygiadau yn y gweithle, nid oes digon o swyddogion prentisiaeth yn gosod targedau tymor byr i ddysgwyr wella eu medrau llythrennedd neu rifedd.

Mae'r darparwr yn cynnig prentisiaethau ledled Cymru ac felly mae ganddo ddysgwyr â'r amrediad llawn o alluoedd siarad Cymraeg. Mewn adolygiadau yn y gweithle, nid yw swyddogion prentisiaeth yn gwneud digon bob amser i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Yn ddiweddar, aeth y darparwr ati i adolygu sut mae'n hyrwyddo datblygu medrau Cymraeg dysgwyr, a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. O ganlyniad, mae wedi darparu hyfforddiant ac wedi cynhyrchu pecyn adnoddau defnyddiol i swyddogion prentisiaeth ei ddefnyddio yn ystod adolygiadau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y datblygiadau hyn. Mewn adolygiadau, mae swyddogion prentisiaeth yn defnyddio llawer o gyfleoedd yn y gweithle i ddatblygu dealltwriaeth prentisiaid o ddatblygu cynaliadwy, defnyddio adnoddau ac ailgylchu. Fodd bynnag, maent yn llai effeithiol o ran datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae swyddogion prentisiaeth, tiwtoriaid ac aseswyr colegau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno yn meddu ar wybodaeth ddiweddar am y diwydiant a medrau galwedigaethol diweddar. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gysylltu â

chyflogwyr ac arwain dysgwyr drwy'r gwahanol grefftau medrus yn y diwydiant adeiladu. Mae gan bron pob un o'r swyddogion ac aseswyr prentisiaid ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr ac yn eu herio'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o sesiynau a addysgir yn cael eu cynllunio'n effeithiol ac yn cynnwys nodau ac amcanion clir. Mewn sesiynau a addysgir, mae tiwtoriaid coleg yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu ac yn annog dysgwyr i weithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau bach. Ceir adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd da a chânt eu defnyddio'n dda. Bydd dysgwyr sy'n mynychu sesiynau gweithdy ymarferol yn y coleg yn datblygu ystod eang o fedrau sy'n berthnasol i'w gweithle. Mae tiwtoriaid coleg a phartneriaid a swyddogion prentisiaeth yn gweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod cydweddu da rhwng y tasgau ymarferol yn y gweithle a'r mewnbwn theori. Mae aseswyr a swyddogion prentisiaeth yn defnyddio technegau holi effeithiol i gefnogi'r dysgu ac i wirio dealltwriaeth dysgwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, mae aseswyr a swyddogion prentisiaeth yn defnyddio cwestiynau caeedig neu'n gofyn gormod o gwestiynau ar unwaith, gan ei gwneud hi'n anodd i'r dysgwr ddatblygu ei ymatebion.

Mae gan swyddogion ac aseswyr prentisiaeth berthnasoedd gweithio da iawn gyda chyflogwyr a'u dysgwyr. Mae bron pob cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gyflawni safonau medrau ymarferol uchel sy'n berthnasol i'r diwydiant adeiladu. Mae rheolwyr safle a staff cymorth yn mentora ac yn hyfforddi'u prentisiaid yn dda. Maent yn eu hannog i lwyddo a symud ymlaen at dasgau mwy cymhleth sy'n cyfateb i fedrau a chymwysterau ar lefel uwch.

Mae swyddogion prentisiaeth yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd gyda'u dysgwyr. Maent yn cysylltu'n dda â thiwtoriaid ac aseswyr sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno a chyflogwyr i adolygu targedau a osodwyd yn flaenorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn gosod heriau realistig ond heriol i ddysgwyr eu cyflawni.

Mae aseswyr yn cynllunio gweithgareddau asesu yn dda. O ganlyniad, mae dysgwyr yn deall sut byddant yn cael eu hasesu a beth a ddisgwylir ganddynt. Mae bron yr holl ddysgwyr yn gwybod y cynnydd maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt wneud i gwblhau eu fframwaith hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o staff hyfforddi yn rhoi adborth effeithiol ac adeiladol i ddysgwyr ar ddiwedd tasgau asesedig.

Mae swyddogion prentisiaeth yn defnyddio amserlen hyfforddi prentisiaid sy'n cofnodi'n gynhwysfawr y cysylltiadau rhwng gweithgareddau hyfforddi dysgwyr i ffwrdd o'r gwaith â thasgau yn y gweithle. Defnyddir y system hon yn effeithiol i helpu dysgwyr i wybod beth sydd angen ei ddysgu a'i ymarfer er mwyn cyflawni eu fframwaith hyfforddi. Mae swyddogion prentisiaeth yn defnyddio system raddio cod lliwiau yn dda i olrhain datblygiad a chynnydd dysgwyr yn ystod adolygiadau rheolaidd o gynnydd. Caiff y system olrhain hon ei monitro'n ganolog yn fisol gan y darparwr. Lle nad yw dysgwyr ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed, caiff ymyriadau cadarn eu rhoi ar waith yn gyflym.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn hyrwyddo iechyd a lles dysgwyr yn dda. Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol a manwl i ddysgwyr ar ddechrau eu rhaglenni ynglŷn â'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael iddynt. Mae'r arweiniad hwn ar gael yn ddwyieithog. Mae'r dysgwyr hynny sy'n dymuno symud ymlaen at gyrsiau lefel uwch, gan gynnwys cymwysterau lefel gradd, pan fydd eu fframweithiau wedi'u cwblhau, yn cael cymorth da.

Mae ymagwedd y darparwr at iechyd, diogelwch a lles yn gadarn. Mae gwiriadau ar ddarpar gyflogwyr a chyflogwyr presennol, a'r modd maent yn rheoli iechyd, diogelwch a lles, yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Mae iechyd, diogelwch a lles dysgwyr yn destun adolygiadau cynnydd rheolaidd. Mae dysgwyr yn gwybod sut i weithio'n ddiogel ar y safle, sut i roi gwybod am arferion anniogel, damweiniau a damweiniau a fu bron â digwydd, a phwy i droi atynt os oes angen cymorth ychwanegol arnynt.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y darparwr adolygiad mewnol llawn o'r modd y mae'n hyrwyddo ac yn darparu cymorth dysgu. O ganlyniad, mae'r darparwr wedi diweddaru ei strategaeth cymorth dysgu ac mae swyddogion prentisiaeth yn cael mynediad da at gyngor ac arweiniad priodol erbyn hyn drwy'r 'Canllaw Mewn Perygl' / 'At-Risk Guide'. Mae'r canllaw hwn yn gynhwysfawr ac yn ymdrin yn dda â'r risgiau cyffredinol hynny a allai ddod yn rhwystrau rhag dysgu, yn ogystal â materion mwy penodol a allai godi i ddysgwyr sy'n fwy agored i niwed. Yn benodol, mae'r darparwr yn canolbwyntio cymorth yn ystod chwe wythnos gyntaf rhaglen dysgwyr pan fydd y perygl mwyaf iddynt adael. Mae'r canllaw hwn hefyd yn ymdrin â materion fel cydraddoldeb, bwlio ac aflonydd, a defnyddir y manylion gan y rhan fwyaf o swyddogion prentisiaeth fel sail ar gyfer trafod gyda dygwyr yn ystod adolygiadau o gynnydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o adolygiadau o gynnydd, mae swyddogion prentisiaeth yn ymdrin â'r materion hyn ar lefel rhy arwynebol.

Mae'r darparwr yn defnyddio'r wybodaeth olrhain sydd ganddo gan ddysgwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid hyfforddi yn effeithiol, gan gynnwys data am bresenoldeb dysgwyr mewn dysgu yn y gwaith a dysgu i ffwrdd o'r gwaith, eu cynnydd yn eu datblygiad medrau technegol a chasglu tystiolaeth ar gyfer eu portffolio. Mae hyn yn helpu'r darparwr i gynnal monitro parhaus effeithiol o gynnydd dysgwyr ac i swyddogion prentisiaeth wneud ymyriadau amserol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw lithro a rhoi cynlluniau adfer priodol ar waith.

Mae'r darparwr yn rheoli materion diogelu yn dda. Mae ganddo arferion recriwtio diogel cynhwysfawr, hyfforddiant diogelu sylfaenol ar gyfer pob un o'r staff, a hyfforddiant gwahaniaethol ar gyfer staff â chyfrifoldebau diogelu uniongyrchol. Mae'r darparwr yn monitro materion diogelu yn dda drwy grŵp lles cwmni cyfan, sy'n cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio ei bolisïau a'i weithdrefnau, ac adrodd i'r rheolwyr am yr holl faterion diogelu.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno i nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr adeg ymsefydlu a thrwy gydol y cyfnod hyfforddi. Caiff dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda gan wasanaethau cymorth myfyrwyr y sefydliadau addysg bellach.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn hyrwyddo ac yn atgyfnerthu ethos o gynwysoldeb, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y diwydiant adeiladu yn dda. Mae tua hanner o'r dysgwyr cyfredol a'r cyflogwyr sy'n llysgenhadon i'r darparwr yn fenywaidd. Maent wedi datblygu ac yn defnyddio ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'u nod i atal bob math o aflonyddu a gwahaniaethu. Darperir gwybodaeth gynhwysfawr i'r holl ddysgwyr am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod y cyfnod ymsefydlu ar ddechrau eu rhaglen hyfforddi. Mae staff y darparwr yn ymgymryd ag hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddaru trwyadl ar ystod eang o destunau a materion allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gwybodaeth o holiaduron boddhad dysgwyr yn cadarnhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag unrhyw aflonyddu.

Mae'r darparwr yn hyrwyddo mynediad at raglenni ar gyfer dysgwyr o bob cefndir yn effeithiol. Mae'r wefan yn rhoi ystod gynhwysfawr o wybodaeth i ddarpar ddysgwyr am y diwydiant adeiladu. Mae'r darparwr yn casglu, dadansoddi ac arfarnu data'n effeithiol er mwyn adolygu sut mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn symud ymlaen ac yn ennill fframweithiau o gymharu â'i gilydd a chymaryddion cenedlaethol.

Mae gweithdrefn gŵynion y darparwr yn glir a chadarn. Caiff unrhyw faterion neu gŵynion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth eu hamlygu ac eir i'r afael â nhw yn gyflym ac effeithiol. Mae dysgwyr yn deall y gweithdrefnau cwynion ac apeliadau yn dda ac yn dangos dealltwriaeth dda o sut i roi gwybod am faterion.

Mae hyfforddiant yn y gwaith yn rhoi mynediad da i ddysgwyr i ystod eang o amgylcheddau gwaith lle gallant ddatblygu'u medrau, a thrafod eu cynnydd gyda swyddogion prentisiaeth a'u cyflogwyr. Mae swyddfeydd safle a chyfleusterau staff o safon uchel.

Caiff cyfleusterau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith eu cynnal yn dda ac maent o safon uchel, ac yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae offer a chyfarpar mewn cyflwr da ac mae dysgwyr yn cael defnyddio ystod eang o adnoddau dysgu. Mae hysbysfyrddau'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg a llythrennedd a rhifedd yn dda. Yn y mwyafrif o achosion, mae arddangosiadau ac arwyddion yn ddwyieithog.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae uwch reolwyr y darparwr yn effeithiol iawn o ran pennu cyfeiriad a gweledigaeth strategol glir ar gyfer cyflawni'u contract dysgu yn y gwaith. Maent wedi datblygu a sefydlu ffocws cadarn ar brofiad y dysgwr a gwelliant mewn deilliannau dysgwyr. Mae uwch reolwyr yn cysylltu gosod targedau yn effeithiol ag amcanion strategol. Mae blaenoriaethau a gwerthoedd craidd y darparwr wedi'u diffinio'n dda a'u rhannu gyda'r holl staff drwy gynlluniau strategol a gweithredol sydd wedi'u cyflwyno'n dda.

Mae rolau a chyfrifoldebau pendant gan reolwyr a staff ar bob lefel. Mae ganddynt ffocws cadarn ar weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno, ac mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau dysgwyr.

Mae cyfathrebu clir a chynhwysfawr ar draws y darparwr a’i isgontractwyr yn y sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno. Mae’r darparwr yn ymgymryd ag ystod eang o gyfarfodydd wedi’u trefnu i rannu gwybodaeth am berfformiad dysgwyr a nodi a rhannu arfer dda. Mae gan reolwyr a swyddogion prentisiaeth ymrwymiad cadarn ac maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau dysgwyr, eu deilliannau a’u lles.

Mae rheolwyr a swyddogion prentisiaeth yn adolygu data perfformiad yn gyson ac yn rheolaidd. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o ba mor dda y mae pob sefydliad addysg bellach a phartner cyflwyno yn perfformio yn erbyn targedau. Mae’r darparwr yn herio tanberfformio’n effeithiol ac yn cynorthwyo sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno i wella eu perfformiad.

Mae trefniadau rheoli perfformiad staff yn gadarn ac effeithiol. Mae’r darparwr yn cysylltu targedau perfformiad heriol â rolau swydd staff. Mae rheolwyr yn rhoi lefelau uchel o gymorth i swyddogion prentisiaeth er mwyn eu cynorthwyo i wella eu perfformiad.

Mae gweithdrefnau wedi’u sefydlu’n gadarn gan y darparwr ar gyfer rheoli ei isgontractwyr sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno. Mae contractau manwl yn diffinio’n glir rolau a chyfrifoldebau CITB, sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno.

Mae’r darparwr wedi ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae’n cyfrannu’n effeithiol iawn at ddatblygu hyfforddiant adeiladu ledled Cymru drwy nodi a diwallu anghenion y diwydiant adeiladu a datblygu strategaethau i fodloni gofynion medrau yn y dyfodol. Mae’r darparwr yn chwarae rôl arweiniol yn cynghori Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant ar faterion allweddol yn ymwneud â hyfforddiant yn y diwydiant adeiladu. Mae’r darparwr wedi datblygu grŵp strategol allweddol i gefnogi hyfforddiant adeiladu yng Nghymru. Mae’r grŵp hwn, sef y Grŵp Cynghori Strategol ar yr Amgylchedd Adeiledig, wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran dod â’r holl sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth. Mae’r grŵp yn canolbwyntio’n dda ar wella profiad y dysgwr a deilliannau’r fframwaith. Hefyd, mae ganddo rôl allweddol yn mynd i’r afael â’r argymhellion a amlinellwyd yn adolygiad thematig Estyn ar adeiladu a’r amgylchedd adeiledig. Mae’r darparwr wedi bod yn arbennig o effeithiol yn datblygu’r prosiect ‘All In It Together’ mewn cysylltiad â Chymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain. Mae’r prosiect hwn yn nodi ac yn hyrwyddo arfer orau ar draws y rhwydwaith darparwyr hyfforddiant adeiladu.

Mae bwrdd wyth aelod y darparwr yn cynnwys cynrychiolwyr o’r diwydiant adeiladu cyfan ac mae’n dod ag aelodau at ei gilydd o Loegr, Cymru a’r Alban, sy’n gwneud penderfyniadau ar sail anghenion y diwydiant. Cânt eu cefnogi gan Gyngor CITB gydag aelodau o bob cwr o’r diwydiant. Mae’r bwrdd yn derbyn ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad y contract dysgu yn y gwaith yng Nghymru. Mae’n cynnig her gadarn a chymorth effeithiol i uwch reolwyr.

Mae'r darparwr yn ymwneud yn weithgar â rhwydweithiau arfer broffesiynol sy'n cynnwys Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae proses hunanasesu'r darparwr yn arfarnu tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau. Caiff ei datblygu mewn ffordd systematig ac mae'n cynnwys mewnbwn gan staff a phartneriaid CITB. Mae'r adroddiad yn gynhwysfawr, yn disgrifio'n gywir ac yn barnu agweddau allweddol ar waith y darparwr, ac yn nodi'n glir gryfderau'r darparwr a meysydd i'w gwella. Caiff sefydliadau addysg bellach, partneriaid cyflwyno, cyflogwyr, dysgwyr a staff CITB gyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at y broses hunanasesu. Mae'r holl staff yn mynychu gweithdy deuddydd ac yn gweithio'n agos gyda rheolwyr i ddatblygu ac adolygu'r adroddiad hunanasesu interim. Mae rheolwyr ardal a thimau yn cynhyrchu cynlluniau gwella ardal manwl sy'n cefnogi'r broses hunanasesu a gwella ansawdd yn dda.

Mae rheolwyr yn defnyddio'r meysydd hyn i'w gwella yn arbennig o dda i ddatblygu cynlluniau gweithredu penodol a blaenoriaethol yng nghynllun datblygu ansawdd manwl y darparwr. Mae'r darparwr yn defnyddio'r cynllun datblygu ansawdd yn effeithiol i fonitro cynnydd cynlluniau gweithredu wrth fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Mae'r darparwr wedi datblygu strategaeth ansawdd gynhwysfawr a elwir yn 'Ansawdd yn Gyntaf / Quality First'. Mae hon yn darparu ffocws cadarn ar welliant parhaus yn ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r fframwaith hwn gan y darparwr er mwyn sicrhau ansawdd ei holl raglenni hyfforddi a'u gwella. Mae'r darparwr yn cysylltu pob agwedd ar y strategaeth hon yn dda iawn â'r broses cynllunio busnes a hunanasesu.

Mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn monitro cyfraddau cyflawniad dysgwyr ar draws y darparwr yn dda. Gwneir defnydd da iawn gan swyddogion prentisiaeth o adroddiadau wythnosol manwl ar berfformiad dysgwyr, a ddarperir gan bartneriaid hyfforddi a chyflogwyr, ar gyfer cynllunio a chynnal adolygiadau dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi datblygu system rheoli perfformiad bwrpasol o ansawdd uchel i olrhain cynnydd dysgwyr a monitro perfformiad isgontractwyr sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno a chyflogwyr. Mae'r system hon yn elfen sylfaenol o'r strategaeth 'ansawdd yn gyntaf' sy'n cefnogi egwyddor graidd y darparwr, sef ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth. Fe'i defnyddiwyd mewn ffordd effeithiol iawn i ddatblygu'r strategaeth 'dysgwyr mewn perygl', sy'n nodi ac yn mynd i'r afael â materion y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio neu dangyflawni. O ganlyniad, mae cyfraddau cadw a llwyddo dysgwyr wedi parhau i wella, ac mae nifer y dysgwyr a gwblhaodd eu hyfforddiant mewn modd amserol yn uchel iawn.

Mae'r system yn galluogi rheolwyr a staff i ddadansoddi ystod gynhwysfawr o wybodaeth ar draws yr holl raglenni hyfforddi. Mae rheolwyr a staff yn dadansoddi'r wybodaeth hon yn fanwl ac yn defnyddio'r canlyniadau i gynllunio ymweliadau, trefnu cyfarfodydd gweithredol a chynnal ymyriadau. Drwy ddefnyddio'r system yn effeithiol, mae swyddogion prentisiaeth yn cynyddu'u cyfleoedd i fynd i'r afael â phryderon a chynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygiad dysgwyr.

Mae'r darparwr yn arfarnu prosesau allweddol yn y daith ddysgu yn dda. Mae cynlluniau gwella ansawdd ardal yn cysylltu'n dda â'r cynllun datblygu ansawdd cenedlaethol, sy'n llywio camau gweithredu a gweithgareddau i wella cyfraddau llwyddo cyffredinol a phrofiad dysgwyr.

Mae'r darparwr yn cynnal adolygiadau rheolaidd o berfformiad eu sefydliadau addysg bellach a'u partneriaid cyflwyno. Mae'r adolygiadau hyn yn mynd i'r afael â meysydd cyflwyno allweddol ac yn rhoi adborth clir i rieni, ynghyd â meysydd i'w gwella, targedau a chamau gweithredu.

Mae'r darparwr yn defnyddio arolygon boddhad dysgwyr a chyflogwyr, a grwpiau ffocws, yn dda i ystyried barnau'r holl randdeiliaid. Caiff y wybodaeth a gesglir ei dadansoddi a'i defnyddio'n eithriadol o dda i lywio gwelliannau i raglenni hyfforddi. Mae canlyniadau'n cael eu crynhoi'n dda a'u rhannu'n dda gyda'r holl staff perthnasol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r darparwr wedi datblygu partneriaethau rhagorol ar lefelau gweithredol a strategol. Mae'n defnyddio'r rhain yn effeithiol iawn i gynrychioli buddiannau dysgwyr ac anghenion y diwydiant adeiladu. Mae rheolwyr a staff yn gweithio'n flaenweithgar i gynorthwyo sefydliadau addysg bellach, partneriaid cyflwyno a chyflogwyr i wella safonau a datblygu medrau yn y diwydiant.

Mae partneriaethau cadarn gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn galluogi'r darparwr i helpu llawer o ddisgyblion ysgol i gael cipolwg ar y cyfleoedd yn y diwydiant adeiladu, a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â chamu ymlaen yn eu gyrfa.

Mae partneriaethau agos gyda chyflogwyr yn galluogi swyddogion prentisiaeth i ddod o hyd i gyfleoedd yn gyflym i'r holl ddysgwyr gael yr ystod profiad llawn sydd ei angen arnynt i gwblhau cymhwyster. Mae partneriaethau cyflogwyr yn galluogi'r darparwr i roi'r ystyriaeth orau i wybodaeth am y farchnad lafur wrth iddo gynllunio i fodloni'r gofynion ar gyfer medrau sy'n datblygu yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r darparwr yn defnyddio partneriaethau cymunedol yn dda i alluogi dysgwyr i ehangu'u profiad trwy gyfrannu medrau at brosiectau cymunedol, fel adnewyddu adeiladau eglwys. Mae ychydig ohonynt wedi helpu i adeiladu ysgol ac ysbyty yn Uganda.

Mae perthnasoedd gweithio rhagorol gan y darparwr â'i sefydliadau addysg bellach, partneriaid cyflwyno a chyflogwyr ac mae'r rhain yn effeithiol iawn o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae swyddogion prentisiaeth yn cynnal cysylltiad rheolaidd ac yn cyfnewid ystod eang o wybodaeth yn gyson gyda sefydliadau addysg bellach, partneriaid hyfforddi a chyflogwyr. Mae'r perthnasoedd gweithio agos hyn yn cyfrannu'n dda hefyd at gydlynu hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn effeithiol iawn, a monitro perfformiad a chynnydd dysgwyr. Mae'r partneriaethau hyn yn dylanwadu'n effeithiol ar gynlluniau cwricwlwm sefydliadau addysg bellach. Er enghraifft, mae'r CITB wedi cynorthwyo ychydig ohonynt i ddatblygu opsiynau dilyniant dysgu yn y gwaith i lefel 4 a lefel 5. Mae'r darparwr yn cyfarfod â sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno yn rheolaidd i fonitro perfformiad ei gontract dysgu yn y gwaith ac i adolygu cynnydd dysgwyr unigol tuag at gwblhau eu fframwaith hyfforddi.

Gan weithio gyda dros 300 o gwmnïau, mae'r darparwr wedi helpu cyflogwyr i nodi ystod eang o gyfleoedd asesu i ddysgwyr wrth gynllunio'u gwaith. Mae'r partneriaethau rhagorol hyn wedi gwella gallu dysgwyr i gasglu tystiolaeth portffolio o'u cymhwysedd ymarferol.

Mae'r darparwr wedi dangos arweinyddiaeth arbennig o gadarn i'r sector ac wedi dod â phartneriaid at ei gilydd i ffurfio Grŵp Cynghori Strategol ar yr Amgylchedd Adeiledig. Cytunodd pob un o'r partneriaid allweddol o fewn y grŵp i gynllun gweithredu ar gyfer gwella hyfforddiant adeiladu yng Nghymru, ac maent yn rhannu'u cynnydd tuag at amcanion mewn ffordd gydweithredol. Mae'r bartneriaeth wedi annog partneriaid i gefnogi'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni argymhellion Estyn o'r adolygiad thematig o hyfforddiant yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r dull partneriaeth effeithiol iawn hwn wedi creu ethos cadarn o gydweithio rhwng penaethiaid adeiladu sefydliadau addysg bellach, wedi lleihau cystadleuaeth rhwng partneriaid ar hyd a lled Cymru, ac wedi'u hannog i rannu gwybodaeth ac arfer orau.

Mae panel cynghori cymwysterau sector y darparwr yn gweithio'n agos gyda phartneriaid sy'n gyflogwyr a Llywodraeth Cymru i sicrhau mai'r cymwysterau sy'n cael eu cyflwyno a'u datblygu yw'r rhai iawn i'r diwydiant adeiladu.

Mae'r darparwr wedi datblygu partneriaethau hynod ddylanwadol ar y lefel strategol uchaf sy'n codi proffil y diwydiant ac yn galluogi arweinwyr i roi ystyriaeth dda i flaenoriaethau'r llywodraeth wrth gynllunio. Ddwywaith y flwyddyn o leiaf, mae'r darparwr yn cyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad i drafod a chynnig cyngor ar anghenion a heriau yn y diwydiant. Drwy ddefnyddio ei bartneriaid sy'n gyflogwyr yn y cyfarfodydd hyn, mae'r darparwr yn gweithredu fel pont uniongyrchol bwysig rhwng y diwydiant y mae'n ei gynrychioli a Llywodraeth Cymru.

**Rheoli adnoddau: Da**

At ei gilydd, mae'r darparwr yn rheoli ei staff a'i adnoddau'n effeithlon. Mae rheolwyr a staff ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae'r rhain wedi'u pennu mewn swydd-ddisgrifiadau clir gyda dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig. Mae rheolwyr a swyddogion prentisiaeth yn meddu ar gymwysterau addas, ac mae cymwysterau ychwanegol gan lawer ohonynt y maent yn eu defnyddio'n dda i ychwanegu gwerth at brofiad y dysgwr.

Mae rheolaethau ariannol trylwyr ar waith gan y contractwr, ac mae'n contractio gyda sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno trwy broses dendro agored, sy'n barnu darpar gontractwyr ar sail eu proffil ansawdd. Mae gweithgor perfformiad yn graddio sefydliadau addysg bellach a phartneriaid cyflwyno o ran eu risg, ac yn monitro cyflawni contractau yn erbyn targedau trwy gyfarfodydd rheolaidd.

Mae gan y darparwr strategaeth recriwtio effeithiol. Caiff staff sydd newydd eu penodi gyfnod ymsefydlu cynhwysfawr gyda'u rheolwr llinell sy'n cynnwys cwblhau modiwlau e-ddysgu ar themâu allweddol. Mae cyfnod adolygu prawf yn olrhain cynnydd trwy gyfnod cychwynnol o chwe mis, ac mae proses werthuso flynyddol

gadarn yn adolygu perfformiad staff yn erbyn targedau a chynlluniau perfformiad unigol. Mae Siarter Dysgu ac Addysgu’r darparwr yn rhoi cyfeiriad strategol clir i staff ar hyfforddiant staff. Cynhelir diwrnodau datblygu staff yn fisol er mwyn diweddaru staff ar themâu allweddol a chyfredol. Mae’r darparwr yn chwarae rhan arweiniol yn trefnu hyfforddiant ar gyfer sefydliadau addysg bellach, partneriaid hyfforddi a chyflogwyr. Er enghraifft, yng nghynhadledd y darparwr ‘All In It Together’, fe wnaeth alluogi partneriaid i rannu arfer dda er mwyn cryfhau ansawdd hyfforddiant y mae dysgwyr yn ei gael.

Mae ymgysylltiad â chyflogwyr yn dda iawn ac mae’r darparwr yn monitro safon gweithleoedd, lleoliadau ac adnoddau yn effeithiol. Defnyddir rhagolygon cenedlaethol yn dda gan y darparwr i nodi anghenion medrau’r diwydiant nawr ac yn y dyfodol, ac yn ddiweddar buddsoddodd mewn partneriaeth strategol i sefydlu Canolfan Arloesi Adeiladu Cymru i arddangos medrau ac i rannu arfer orau o 2018. Mae buddsoddiad yn y cynllun rhannu prentisiaeth (Cyfle) yng Ngorllewin Cymru wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i ddysgwyr.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr ddefnyddio ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel pan fyddant yn mynychu hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith. Mae’r adnoddau hyn yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd da iawn ac mae ychydig o ddysgwyr yn ymarfer medrau adeiladu arbenigol yn ychwanegol at eu fframwaith hyfforddi. Ceir adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu da, gyda mwyafrif y dysgwyr yn mynychu gyda’u dyfeisiadau eu hunain ac yn ymgysylltu ag adnoddau dysgu ar-lein sydd wedi’u cynllunio’n dda.

At ei gilydd, mae safonau a’r cyfraddau y bydd dysgwyr yn ennill cymwysterau arnynt yn dda, ac mae’r darparwr yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg o foddhad dysgwyr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror 2015 yw Llais y Dysgwr.

Mae'r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau am y themâu allweddol canlynol i ddysgwyr:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi
- boddhad cyffredinol

Mae pob thema'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr. Mae 28 o gwestiynau i gyd.

Fe wnaeth 456 o ddysgwyr gwblhau'r arolwg.

Dywedodd 47% o ymatebwyr fod y darparwr yn dda iawn yn gyffredinol. Mae hyn 17% o bwyntiau canran yn is na chyfartaledd y sector, sef 64%. Dywedodd 42% arall fod y darparwr yn dda yn gyffredinol. Credai 33% o ymatebwyr fod eu cwrs yn well nag yr oeddent yn ei ddisgwyl.

Roedd canran yr ymatebwyr a roddodd sgôr da iawn i'r darparwr yn is na chyfartaledd y sector ar gyfer pob un o'r pum thema allweddol yn yr arolwg.

Rhoddwyd sgorau 'da iawn' i'r darparwr sydd islaw cyfartaledd y sector ar draws y rhan fwyaf o'r 28 cwestiwn yn yr arolwg. At ei gilydd, roedd 44% o ymatebwyr o'r farn fod yr addysgu a'r hyfforddi yn 'dda iawn'.

Mae'r arolwg hefyd yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig, sef rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r darparwr yn cyflawni sgorau 'da iawn' is na chyfartaledd y sector ar gyfer llawer o'r nodweddion demograffig allweddol ar gyfer pob cwestiwn.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Jennie Hire | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Robinson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rob Davies | Enwebai |